

# Asesiad o Sail Ymchwil Cymru yn seiliedig ar berfformiad (2010-2018)



Mae Cymru'n cyfrif am 0.05% o gyllid Ymchwil a Datblygu y byd, a 0.1% o ymchwilwyr y byd ond mae'n darparu bron i 0.3% o erthyglau ymchwil y byd, 0.5% o gyfeiriadaeth ymchwil y byd a 0.5% o'r erthyglau y cyfeirir atynt fwyaf.

## Mae system ymchwil Cymru yn hynod effeithlon



Rhwng 2010 a 2018, roedd ymchwilwyr

Cymru yn cyfrif am 4% o holl gyhoeddiadau'r DU a 0.3% o gynnyrch ysgolheigaidd byd-eang

Er gwaethaf ei sail ymchwilwyr bychan, Cymru yw'r mwyaf effeithlon o'r holl gymaryddion byd-eang o ran cynnyrch fesul gwariant

Tyfodd cyfran Cymru o ariannu busnes i 62% o gyfanswm gwariant ar Ymchwil a Datblygu

## Mae ymchwilwyr Cymru yn gynhyrchiol iawn

Cymru sydd â'r cynnyrch 2il uchaf fesul ymchwilydd o'r holl gymaryddion



Ar raddfa fyd-eang, Cymru yw'r unig wlad o blith ei chymaryddion sydd â mwy na 8.5 cyhoeddiad fesul gwariant o €m

## Mae ymchwil Cymru yn cael effaith sylweddol



Tyfodd effaith cyfeirio Cymru i 1.8

—80% yn uwch na'r cyfartaledd byd-eang ac 13% yn uwch na chyfartaledd y DU

Mae cyfran Cymru o'r 5% o gyhoeddiadau y cyfeiriwyd atynt fwyaf ddwywaith y cyfartaledd byd-eang. Mae gan Gymru gyfradd uchel o'r cyhoeddiadau y cyfeiriwyd atynt fwyaf ar draws pob maes pynciol — sy'n uwch na'r cyfartaledd byd-eang a chyfartaledd y DU

## Mae ymchwilwyr Cymru yn gydweithredol

Cafodd dros 50% o gynnyrch ymchwil Cymru ei gynhyrchu mewn cydweithrediad rhyngwladol



Effaith cyhoeddiadau ymchwil rhyngwladol Cymru yw'r uchaf o holl genhedloedd y DU

## Mae cydweithredu academaidd-corfforaethol yn cael effaith fawr




Tyfodd cydweithredu academaidd-corfforaethol Cymru 20% rhwng 2010 a 2018


Effaith cyfeirio Cymru ar gyfer cydweithredu academaidd-corfforaethol oedd yr uchaf o holl genhedloedd y DU

## Mae ymchwil Cymru wedi'i wreiddio'n ddwfn yn system ymchwil ehangach y DU

Mae gan Gymru 3.4% o holl ymchwilwyr y DU, sy'n cynhyrchu 4% o holl gynnyrch y DU



Cynhyrchwyd ~20% o gynnyrch ymchwil Cymru mewn cydweithrediad â chenedloedd eraill y DU yn unig, sydd ddwywaith cyfran Gogledd Iwerddon a'r Alban ar gyfer y math hwn o gydweithredu



## Ymchwilwyr Cymru yw'r mwyaf symudol o holl ymchwilwyr y DU

Mae dros 90% o'r holl ymchwilwyr gweithredol wedi cyhoeddi o leiaf un cyhoeddiad y tu allan i Gymru

Mae bron i 60% wedi allfudo dros dro (llai na dwy flynedd y tu allan i Gymru), ac mae'r grwp hwn yn dangos yr effaith fwyaf o'r holl grwpiau